

16 Yr Annibynwyr

Ceir y cyfeiriad cyntaf at yr achos yma mewn rhestr o leoedd a gofrestrwyd i addoli i Annibynwyr Môn yn Llys Esgobol Bangor;

“1801. Newborough. (A licence granted for the purpose of Religious Worship) in a certain messuage called Chapel, for Independents.”¹/176/

Nid yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu y sefydlwyd eglwys yno y pryd hwnnw. Dywedir mai yn 1860 y cychwynwyd yr achos, yn bennaf trwy lafur y Parch. Hugh Roberts o'r Groeslon, Llangaffo. Ymddengys ei fod yn byw yn Niwbwrch yn 1864, ond erbyn 1883, beth bynnag, trigai yn Llangaffo, fel y gwelir oddi wrth restr Ymddiriedolwyr y capel ar ddiwedd hanes yr achos. “Nid yw y capel ond bychan, ond trwy ymdrech cyfeillion yn y lle, y mae yn rhydd o ddyled.”²

Y gweinidog a fu'n bugeilio yma am gyfnod (cyn 1880) oedd y Parch. Evan Jones, dyn bach o gorff ond smociwr mawr a phregethwr poblogaidd, a arhosai yn 2, Tan-y-ffynnon. Symudodd o Niwbwrch i Lanbedrog, lle bu'n weinidog am flynyddoedd lawer ac yno y bu farw. Ar ei ôl daeth Mr. Jones o Batagonia. Trigai yn 2, Coed-ana, ond aeth yntau i ffwrdd cyn hir. Yn 1880 daeth y Parch. John Williams o Borth-y-gêst i ofalu am yr achos.³ Ym Mron-rallt yr oedd yn byw a'i ferch Arvonja gydag ef. Ymunodd eglwysi Annibynnol y Groeslon (Llangaffo) a Niwbwrch a Dwyran o dan ei weinidogaeth yn 1884.⁴ Bu yma yn bugeilio am gyfnod lled dda.

Erbyn 1891 nid oedd rhif yr aelodau ond 24.⁵ Y blaenoriaid tua'r adeg yma oedd Griffith Jones (crydd), Bryn-felin; Joseph Roberts; Escu Davies (fferyllydd) a Robert Jones, Gwninger. Hen lanc ac ysgolhaig gwych oedd Escu Davies. Gweddiwr mawr a hynod oedd Robert Jones; weithiau enwai pob un o feibion Jacob ar ei weddi pan yn cyfeirio at gyfrifoldeb pob person unigol i'r Creawdwr. Fel hyn y rhedai ei weddi: “Fel yn nyddiau yr hen genedl, felly ninnau; teulu Reuben wrthynt eu hunain, teulu Naphthali wrthynt eu hunain, teulu Judah wrthynt eu hunain”, ac felly yn y blaen hyd nes y byddai wedi eu henwi bob un. Yr oedd Robert Jones yn dipyn o fardd; dyma ddau bennill o'i eiddo :

Rwyf yma yn yr anial
Bron methu tynu mlaen;
Mi fentraf doed a ddelo
I bwyso ar y maen.
Y maen sydd wedi ei osod
Yn ben ar Seion Duw
Mi lechaf yn ei gysgod
I farw ac i fyw.

O Arglwydd dysg im edrych
I hen Galfaria draw,
A gweld fy addfwyn Iesu
A'r hoelion ar bob llaw./177/

A gwranddo ar ei ruddfan
Ac ar ei boenus gur
Wrth farw dros bechadur
O dan yr hoelion dur.

Aeth mor llesg at ddiwedd ei oes fel y cymerai awr o amser i gerdded o'i gartref i'r capel. Daeth y Parch. Robert E. Jones, a aned yng Ngharmel yn Sir Gaernarfon, i ofalu am yr achos yma yn 1894. Bugeiliodd y praid yn ffyddlon a gofalus iawn, ac yr oedd yn ffefryn gyda'r plant. Ar y cyntaf yr oedd diadell fechan yr Annibynwyr yn Llangaffo hefyd dan ei ofal, ac yno y lletyai gyda gwraig o'r enw Mrs. Looms. Pan gaewyd capel Llangaffo, symudodd y gweinidog i letya i Niwbwrch gyda Mrs. Catherine Williams, Bryn-goleu.

Er nad oedd ond rhyw 25 o addolwyr yng nghapel Niwbwrch oddeutu'r flwyddyn 1900, byddai yn “Soar” gyfarfod gweddi bob nos Lun a seiat nos Fawrth. Cynhelid yr Ysgol Sul yn y bore bron yn ddieithriad, fel na byddai raid i'r pregethwyr ddyfod yno ond erbyn oedfa ddau o'r gloch. Deuai rhai ohonynt yn rheolaidd ar nos Sadwrn, yn eu mysg y Parch. J. S. Evans, Cemaes, gwr pwysig iawn yn ei ddydd; y Parch. Trevor Jones, Llannerch-y-medd, bychan ac eiddil o gorff, ond mawr ei ddawn; a'r Parch. Wyn Griffith, Rhos-y-bol, yntau o linach Zaccheus, gyda llais gwan.

Er lleied rhif y gynulleidfa, deuai nifer lled dda o “ddoniau mawr” y pulpud Annibynnol i bregethu i'r capel bach, lle y cynhelid Cyfarfod Pregethu bron bob blwyddyn. Yn eu tro deuai'r Parchn. R. P. Williams, Caergybi; Stanley Jones, Caernarfon; Thomas Evans, Amlwch (brawd i Dr. Owen Evans, Llundain); David Rees, Capel Mawr; ac O. R. Owen, Colwyn. Un adeg anfonwyd at y bardd-bregethwr Meilir Môn o Llannerch-y-medd i'w atgoffa o ddyddiad ei gyhoeddiad, a dyma ei ateb:

1 “Sidelights on the Rise of Nonconformity in the Diocese of Bangor”, by A. I. Price (*A.A.S. Transactions*, 1922, p.51.)

2 *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, II. 517, gan Rees a Thomas (Ler pwl: 1872).

3 “Plannu'r Winwydden ym Môn”, gan y Parch. E. B. Jones, yn *Llawlyfr Undeb yr Annibynwyr*, 1923

4 *Y Dysgeydd*, 1884.

5 *Y Dysgedydd*, 1891.

Anwyl Frawd, mi ddof i Niwbwrch
At y saint sy'n ofni Duw
I bregethu mewn hyfrydwch
Y Sul nesaf os yn fyw
Gan obeithio daw yr Iesu
Yno gyda Meilir Môn
Ac y cawn ni lawenychu
Yng ngoleuni wyneb Iôn.

Ymadawodd y Parch. Robert E. Jones i'r America, lle y priododd â merch o'i ardal enedigol. Y blaenoriaid yn ddiweddarach oedd William Roberts, Baronhill (mab Richard Roberts, teiliwr); John Williams, Ysgubor-ddu (Tan-rofft at ôl hynny); a Benjamin Lewis (trysorydd yr Eglwys).

Rhywbeth yn debyg i hyn a fyddai trefniant y Cwrdd Chwarter i dalu i'r cenhadon a ddeuai i bregethu i "Soar"; 5/- [25p] i fechgyn /178/coleg; 7/6 [38p] i rai heb fod yn weinidogion, a 10/- [50p] i weinidogion. Trysorydd Annibynwyr y Sir oedd y Parch. J. G. Jones, Cana, Llanddaniel, a deuai i Niwbwrch bob hyn a hyn yn ei gerbyd ysgafn a'i farch nwyfus bywiog, gan roddi rhyw ,6 ar y tro i bwrs yr eglwys at dalu i'r cenhadon. Ar Ddydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf gwneid casgliad at olew i oleuo'r capel drwy'r gaeaf.

Hen chwaer ffyddlon a duwiol yn perthyn i'r capel yma oedd Catherine Lewis. Ni allai gerdded hyd yn oed yn ôl a blaen ar ei haelwyd, gan ei bod yn hollol analluog, ond gofalai anfon ei rhodd at bob casgliad. Oherwydd hynny cynhelid cyfarfod gweddi yn weddol aml yn ei thî. Gan nad oedd lle yn y gegin ond i nifer fechan o rai mewn oed, eisteddai'r plant ar y grisiau gan edrych i lawr ar y "gynulleidfa" weithiau yn eu dagrau.

Ordeiniwyd y Parch. D. C. Herbert yn weinidog yma yn 1907, gŕr gweithgar a charedig. Sefydlodd Obeithlu ynglŷn â'r eglwys, ond cyn hir derbyniodd alwad i fugeilio eglwys Brynsiencyn. Yna trefnodd pwyllgor y Cwrdd Chwarter i Mr. Simon B. Jones i ofalu am yr achos. Athro cynorthwyol yn ysgol elfennol Aberffraw ydoedd, a'i fryd ar fyned i'r weinidogaeth, ac felly y gwnaeth yn ddiweddarach. Deuai i'r capel ddau neu dri Sul yn y mis a phob wythnos i'r cyfarfod gweddi a'r seiat, Bu'n hynod ffyddlon drwy bob tywydd ac yn ymdrechgar i fugeilio yn dda. Yr olaf i fugeilio'r praidd yma oedd y Parch. W. H. Cassam, a ddaeth yma o'r De yn 1914. Er ei holl ymdrechion methodd a chael rhai o'r hen aelodau yn eu hôl a oedd erbyn ei ddyfodiad ef i'r ardal wedi ymaelodi yn yr eglwys esgobaethol neu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac ymhen dwy flynedd dychwelodd i'r De.⁶

Gwerthwyd y capel i'r *Foel Agricultural Co-operative Society, Ltd.* ar 24 Mehefin 1922. Arwyddwyd y gwerthiant gan y Parch. John Griffith Jones, West View, Llanddaniel, a David Lloyd Jones, Green Farm, Bodffordd.

⁶ Am y rhan fwyaf o'r achos yn "Soar" yr wyf yn ddyledus i Miss Elizabeth Lewis, Tî-newydd, Niwbwrch.

MEMORANDUM of the Choice and Appointment of New Trustees of the Independents' Chapel situate at the village of Newborough in the parish of Newborough in the county of Anglesey at a Meeting duly convened and held for that purpose in the said chapel on the Second day of March 1883. Thomas Richard Owen, Chairman.

Names and descriptions of all the Trustees on the Constitution or last Appointment of Trustees made on the second day of May 1864.

Reverend Hugh Roberts of Newborough
Joseph Roberts of Tynrallt in the pariah of Newobrough Farmer
John Jones of Newborough aforesaid Pig merchant
Escu Davies of Newborough aforesaid Shopkeeper/179/
Robert Owen of Caerychain in the said parish of Newborough Stonemason
Robert Jones of Newborough aforesaid Miner
John Rowlands of Gegin in the parish of Llangeinwen
John Wlilliams, of Llangeinwen aforesaid Shopkeeper
David Roberts of Llangeinwen aforesaid Tailor
John Owen of Llangeinwen aforesaid Carpenter,
(all in the County of Anglesey).

Names and descriptions of all the Trustees in whom the said Chapel and premises now become legally vested.

First - Old continuing Trustees: -

Reverend Hugh Roberts now of Llangaffo.
Joseph Roberts now of Tyn Lon Trefdraeth, farmer.
John Jones now of Church Street, Newborough, Pig Dealer.
Escu Davies, now of Newborough, Post Master.
Robert Owen now of Cerrig Mawr, Newborough, farmer.
Robert Jones now of Chapel Street, Newborough, Miner.
John Rowlands, now of Ty Newydd, Bryngwyn Llanidan, Labourer.
David Roberts now of Llangaffo, Tailor.
John Owen now of Tan y fynwent, Llangeinwen.

Second, - New Trustees now chosen and appointed:-

Owen Thomas of Clegyrog in the parish of Llanbadrig Farmer
John Owen of Llangejni Painter
William Thomas of Llangejni aforesaid Chartered Accountant
Hugh Lewis of Llewelyn Lodge in the parish of Bodedern Gentleman

William Roberts of Treban in the parish of Bryngwran Farmer
Henry Williams of Cromlech in the said parish of Llanbadrig Farmer
David Lewis of Tir Forgan in the said parish of Newborough Labourer
Griffith Jones Tynygamdda in the said parish of Newborough Shoemaker
John Jones of Bronrallt in the said parish of Newborough Master Mariner,

all in the said county of Anglesey. Dated this Second day of March 1883

[Signed] Thomas Richard Owen Chairman of the said Meeting.
Signed Sealed and Delivered by the said Thomas Richard Owen as Chairman of
the said Meeting at and in the presence of the said Meeting on the day and year
aforesaid in the presence of us.

[Signed] W. Thomas Chartered Accountant Llangefni
[Signed] Escu Davies Post Master Newborough

/180/Ar 8 Mawrth 1883 gwnaed Datganiad o Ymddiriedolwyr y capel, ond am ryw reswm neu'i gilydd ni arwyddwyd y Datganiad gan Joseph Roberts, Robert Owen, John Rowlands na John Owen. Ysgrifennodd y gweddill eu henwau yn briodol, oddieithr yr olaf - John Jones - ei farc yn unig roddodd ef. Owen Thomas o Glegygrog oedd y diweddar Gadfridog Owen Thomas a fu am gyfnod yn Aelod Seneddol dros Fôn.